NEWYDDLEN CWLWM – IONAWR 2019







## Croeso i Newyddlen Cwlwm Mis Ionawr, lle wnewch ganfod y wybodaeth ddefnyddiol ddiweddaraf ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.

# CYNNWYS:


1. Arolygaeth Gofal Cymru (AGC)
2. Safonau Gofynnol Cenedlaethol
3. Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant
4. Fframwaith sefydlu ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant Cymru gyfan
5. Ymgyrch cenedlaethol i recriwtio rhagor o weithwyr blynyddoedd cynnar a gofalwyr plant
6. Datblygu Cydberthynas Cyflogaeth Dda
7. Diweddariad Pensiynau
8. Cynnig Gofal Plant i Gymru... Blwyddyn yn ddiweddarach
9. Y Gwiriwr Lefel Cymraeg
10. Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018

# 1 Arolygaeth Gofal Cymru (AGC)




Mae'r AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2017 - 2018. Mae'r adroddiad yn amlygu'r cynnydd yn y nifer o arolygiadau gofal plant a chwarae yn ystod y deuddeg mis, cynnydd o draean ers y flwyddyn ddiwethaf, sef 1492. Er hynny, mae'r nifer o wasanaethau chwarae a gofal plant a reoleiddir wedi disgyn o 4321 o 4137, a gwelwyd gostyngiad ar draws yr holl wasanaethau. Mae hyn yn achos o bryder i'r sector. Bydd partneriaid Cwlwm yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cynaladwyedd a thwf gofal plant yn flaenoriaeth uchel.

Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith parhaus i ddatblygu gwasanaethau digidol, gan gynnwys symudiad tuag at gofrestru ar-lein ar gyfer yr holl wasanaethau cofrestredig. Mae partneriaid Cwlwm yn gweithio'n agos gyda AGC i gefnogi'r datblygiad hwn, a byddem yn rhannu diweddariadau yn y dyfodol.

Diolch i bawb a ymatebodd i holiadur Cwlwm ar asesiadau tawel AGC. Dyma ganfyddiadau allweddol yr holiadur:

- **108 o ymatebion oddi ar y sector gofal plant a'r sector chwarae yng Nghymru.**
- **Dwedodd 89% y cafodd y rhesymeg tu ôl i'r asesiadau tawel ei hegluro'n glir.**
- **Dwedodd 76% eu bod yn cytuno gyda'r radd dawel a roddwyd.**

Rhennir y canfyddiadau gydag AGC er mwyn cefnogi datblygiad pellach y defnydd o raddau cyhoeddedig o Ebrill 2019.

## 2 Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.

Dymunai Llywodraeth Cymru a Cwlwm hel barn darparwyr gofal plant a darparwyr chwarae ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Trwy gwblhau holiadur byr ar-lein, gallwch helpu ni i wella'r gefnogaeth rydym yn darparu i'r sector, a goleuo penderfyniadau polisi'r dyfodol. Mae'r holiadur yn gofyn am farn y darparwr ar sut mae'r SGC yn eu cynorthwyo i ddarparu gofal plant o safon, ynghyd â newidiadau a gwelliannau a ellir gwneud.




Mae'r holiadur ar-lein ar wefan Cwlwm.

https://www.cwlwm.org.uk/safonau-gofynnol-cenedlaethol-national-minimum-standards/

Bydd o ar agor hyd at 22ain Chwefror 2019.

# 3 Llywodraeth Cymru yn lansio Canllawiau Arferion Gorau ar Gyfer Bwyd a Maeth mewn Lleoliadau Gofal Plant

Mae bwydlenni iach a ryseitiau ar gyfer brecwastau, prydau, byrbrydau a diodydd i blant yn eich gofal ar gael i'w lawr lwytho [yma.] Cliciwch ar y ddolen 'Dysgu Mwy' i weld canllawiau cynhwysfawr sy'n rhan o gyfres o fentrau gan Llywodraeth Cymru bydd yn cyfrannu at newidiadau cadarnhaol i ddietau yn y blynyddoedd cynnar, a sicrhau bod plant yn cyrraedd ac yn cynnal pwysau iach wrth iddynt dyfu a datblygu. Mae hyn yn cynnwys gosod safonau bwyd cyfredol a seilir ar dystiolaeth, a chanllawiau ar sut i weithredu nhw yn ymarferol, gan gynnwys:




- **gweini byrbrydau maethlon gydag ychydig neu ddim siwgr a halen;**
- **darparu diodydd diogel ac iachus yn unig, megis llaeth a dŵr, a wneith amddiffyn dannedd**
- **gweini ystod o brydau blasus a maethlon i helpu plant ddatblygu arferion bwyta da; a**
- **sicrhau bod meintiau'r prydau yn addas i oedran y plant**

Mae yna lawer o declynnau ac adnoddau i gynorthwyo lleoliadau i ddatblygu eu darpariaeth bwyd a diod, i gynorthwyo plant i fwyta'n dda, ac i fonitro eu cynnydd.

Darperir hyfforddiant i staff lleoliadau yn lleol, trwy'r rhaglen 'Sgiliau Maeth am Oes', a darperir gan ddietegwyr ym mhob bwrdd iechyd. Am ragor o wybodaeth, gwelwch:

Nutrition Skills for Life™ Sgiliau Maeth am Oes

https://www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/nutrition/nutrition-skills/

Byddem hefyd yn gweithio'n agos gydag Arolygaeth Gofal Cymru i sicrhau bod gan Arolygwyr gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canllawiau.

# 4 Fframwaith sefydlu ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant Cymru gyfan

Cyflwynir teclyn newydd gan Gwasanaethau Cymdeithasol i hybu hyder a sgiliau gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Bwriad y fframwaith yw sicrhau bod gan weithwyr y sector y sgiliau, gwybodaeth a hyder sydd ei angen i weithredu'n gymwys o fewn 6 mis cyntaf eu cyflogaeth.

**Bydd y fframwaith yn gymorth i ymarferwyr:**

- deall eu rôl - yr hyn a disgwylir ganddynt, a pha gefnogaeth gallan nhw ddisgwyl
- dod i adnabod eu gweithleoedd, a'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i gyflawni ei swydd
- dod i adnabod eu cydweithwyr a datblygu perthnasau gwaith cadarnhaol
- deall y ffyrdd orau i gefnogi eu cydweithwyr

Mae'r Fframwaith yn un o'r camau a weithredir o dan y cynllun 10-mlynedd ar gyfer gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar. Bydd y fframwaith sefydlu yn gymorth i Lywodraeth Cymru i broffesiynoli'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd y fframwaith yn cefnogi cyflwyniad y cymhwyster gofal plant newydd pan gaiff ei sefydlu ym mis Medi 2019, a bydd yn ffurfio rhan o gynllun tymor hir i ddatblygu fframwaith hyfforddiant cenedlaethol mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r Fframwaith sefydlu ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant Cymru gyfan ar gael i'w lawr lwytho yma:

socialcare.wales/learning-and-development/all-wales-induction-framework-for-early-years-and-childcare

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn a'r Fframwaith, gallwch gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru ar 0300 30 33 444**

# 5 Ymgyrch cenedlaethol I recriwtio rhagor o weithwyr blynyddoedd cynnar a gofalwyr plant

Yn 2019 bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn lansio ymgyrch cenedlaethol i ddenu a recriwtio mwy o weithwyr i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â nifer o fudiadau, mae'r ymgyrch yn anelu i godi ymwybyddiaeth o fanteision a gwobrwyau gyrfa ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant, ac i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i'r sawl sydd a'r priodweddau personol a sydd â diddordeb mewn maes o fewn y sector.

Pe dymunech ddarganfod mwy, cysylltwch â rheolwr y rhaglen, Andrew Bell, trwy ei e-bost: andrew.bell@socialcare.wales



# 6 Datblygu Cysylltiadau Cyflogaeth Dda

Mae staff o ansawdd a chysylltiadau cyflogaeth dda yn hanfodol i'r sector. Er mwyn gwneud pethau'n iawn, mae ACAS (Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ar bob agwedd ar gysylltiadau yn y gweithle a chyfraith cyflogaeth, gan gynnwys:

- **Codau Ymarfer statudol** a **chyngor ac arweiniad** i helpu cyflogwyr e.e. ar sut i ysgrifennu contract cyflogaeth neu ymdrin â disgyblaeth a chwyn;
- **hyfforddiant wedi'i deilwra** gan gynnwys hyfforddiant ar-lein;
- cyngor arbenigol diduedd am ddim drwy'r **Llinell Gymorth** (0300 123 1100) a **Llinell Gymorth Gwasanaethau Ar-lein** i gyflogwyr a gweithwyr.




**[www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk)**


**Llinell Gymorth 0300 123 1100, o ddydd Llun i ddydd Gwener 8yb-6yh**



# 7 Diweddariad Pensiwn

Mae cofrestriad awtomatig yn fenter gan y Llywodraeth, sy'n ei gwneud hi'n orfodol i'r cyflogwyr gofrestru eu gweithwyr cymwys i gynllun pensiwn. Rhaid i'r cyflogwr talu pres i'r cynllun hefyd. Erbyn Ebrill 2019, bydd y cyfanswm y cyfraniad isaf yn cynyddu i 8%; gyda'r cyflogwr yn talu 3% a'r cyflogai yn talu 5%.

**www.thepensionsregulator.gov.uk/cy**



# 8 Blwyddyn yn ddiweddarach... Cynnig Gofal Plant i Gymru, Canlyniadau Ymchwil Arad a'r NatCen

Mynychodd partneriaid Cwlwm y grŵp rhanddeiliad Cynnig Gofal Llywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Tachwedd 2018. Cyflwynwyd canlyniadau gwaith ymchwil y Gwerthusiad Darpariaeth Gynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru yn ystod y digwyddiad. Cafodd partneriaid Cwlwm eu cyfweld, a chyfrannodd hwy i'r canfyddiadau. Mae'r clorianyddion wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i:

- wneud hi'n haws i ymgeisio / profi cymhwyster, a gwneud y profiad yn un gyson ar gyfer bob rhiant sy'n gweithio
- wella, ac o bosib, canoli'r dull cyfathrebu
- ddarparu rhagor o wybodaeth glir i help rhieni cyfrifo costau gofal plant, gan gymryd trethi credyd i blant i ystyriaeth
- unioni darpariaeth gofal plant a darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen, mewn perthynas â rhoi mynediad i rieni a threfniadau ariannu
- y berthynas gweithiol rhwng ysgolion sy'n darparu'r MCS a darparwyr gofal plant
- elfennau o gyflenwi gan gynnwys codi tâl am oriau ychwanegol gan ddarparwyr a'r defnydd o'r gyllideb AAY gan Weithredwyr Cynnar awdurdodau lleol a darparwyr sy'n cyflwyno'r cynnig
- Gwaith ymchwil i ddarparu tystiolaeth derfynol ar effaith y Cynnig Gofal Plant i Gymru.



Darllenwch yr adroddiad llawn yma

# 9 Gwiriwr Lefel Cymraeg

Erbyn rŵan rydym yn siŵr eich bod wedi clywed am y Gwiriwr Lefel Cymraeg. Dyma erfyn diagnostig sydd yn defnyddio 4 gweithgaredd ar-lein i adnabod lefel sgil y gweithlu gofal a chwarae.

**Gwnewch cais i gymryd rhan heddiw, e-bostiwch:** edi@meithrin.cymru

***Mae llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar eich cyfraniad***


## Pam ddylwn i gymryd rhan?

- I gael fod yn rhan o'r 'Cynnig Gweithredol i Gymru' – cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg heb fod angen i rywun ofyn amdano.
- Bydd AGC yn adrodd ar ac yn ystyried y 'Cynnig Gweithredol' o fewn gwasanaethau gofal.
- I adnabod cyfleoedd i hybu'ch datblygiad proffesiynol. Mae nifer o gyrsiau ar gael i'ch cynorthwyo i fireinio'ch Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau newydd. Bydd y Gwiriwr yn gymorth i chi benderfynu ar y gefnogaeth sydd fwyaf addas i chi.
- Byddech yn cyfrannu tuag at ddatblygiad cyrsiau Cymraeg pwrpasol ar gyfer y sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae trwy Gymru gyfan.

## Sut ydw i'n canfod fy lefel?

- Byddech yn derbyn amcangyfrif o'ch lefel Cymraeg ar gyfer sgiliau **Gwrando a Darllen** ar unwaith.
- Ceir eich atebion i'r elfennau **Siarad ac Ysgrifennu** eu hasesu gan berson, felly dyle eich canlyniadau ymddangos ar eich cyfrif o fewn 14 ddiwrnod o orffen.

# 10 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018




Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau a manylion am wasanaethau sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar eu gwefan. Gweler yma am fanylion.

## Ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft ar gyfer Cymru

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft a'r bwriad polisi ar gyfer nifer o reoliadau cysylltiedig eraill arfaethedig. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan 22 Mawrth 2019.  Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb yn ogystal â fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad ar gael ar-lein yn:

https://beta.gov.wales/draft-additional-learning-needs-code




Gellir anfon negeseuon e-bostio / postio at y cyfeiriad isod
i gyrraedd erbyn 22 Mawrth 2019 ar y diweddaraf:

**E-mail**: SENreforms@gov.wales

**Cyfeiriad:** Y Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, Yr Isadran Cefnogaeth i Ddysgwyr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru ym mis Chwefror a bydd pob digwyddiad yn cynnwys gweithdy sy'n ymwneud a'r blynyddoedd cynnar.  Mae cofrestru ar gyfer y digwyddiadau bellach ar agor - gallwch chi gofrestru i fynychu digwyddiad yma:

**https://aln-regional-event-2019.eventbrite.co.uk**

www.cwlwm.org.uk

Mae partneriaeth Cwlwm yn cynnwys y sefydliadau isod:


**CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS**
Bridge House, Station Road, Llanishen, Caerdydd CF14 5UW
**Ffôn:** 029 2074 1000 **E-bost:** info@clybiauplantcymru.org

**BLYNYDDOEDD CYNNAR CYMRU**
Unit 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Caerdydd CF10 5GX
**Ffôn:** 029 2045 1242 **E-bost:** info@walesppa.org

**MUDIAD MEITHRIN**
Y Ganolfan Integredig, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1PD
**Ffôn:** 01970 639639 **E-bost:** post@meithrin.cymru

**NDNA CYMRU**
Office 2, Crown House, 11 Well Street, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
**Ffôn:** 01824 707823 **E-bost:** wales@ndna.org.uk

**PACEY CYMRU**
Room G16, The Maltings, East Tyndall Street, Caerdydd CF24 5EZ
**Ffôn:** 0845 880 1299 **E-bost:** paceycymru@pacey.org.uk